OCR
RECOGNISING ACHIEVEMENT

Chief Examiner's Report

Prosesu Geiriau Level 2 – 03948
Summer 2009

Llwyddodd bron pob ymgeisydd i gwblhau'r papur arholiad. Roedd y safon yn dderbyniol ond nid oedd wastad ôl ymgeiswyr yn prawf-ddarllen eu gwaith yn ofalus. Cosbwyd am wallau teipio yn bennaf ond hefyd am wallau cyflwyniad ac am fethu â dilyn y cyfarwyddiadau bob tro.

Dogfen 1

Cwblhawyd y ddogfen hon yn dderbyniol ar y cyfan. Llwyddodd pob ymgeisydd i newid yr ymyl chwith yn gywir ond nid oedd yr ymyl uchaf yn gywir bob tro ar dudalennau 2 a/neu 3 (4T). Ni lwyddodd pawb i ddefnyddio unioni llawn (4S). Llwyddodd pawb i symud testun yn ôl y cyfarwyddiadau ond ni lwyddodd pawb i gopïo'r frawddeg yn gywir – cafwyd sawl enghraifft o ymgeiswyr yn copïo'r paragraff yn hytrach na'r frawddeg (3.5). Yn ogystal, ni adawodd ambell ymgeisydd linell wag cyn y frawddeg a gopïwyd (4B). Llwyddodd bron pob ymgeisydd i fewnleoli'r paragraff (cosbwyd 1 gwall dan 4U os na lwyddwyd) ac i newid i ofod sengl pan oedd angen gwneud hynny (cosbwyd 1 gwall dan 4C os na wnaed hynny). Llwyddodd pob ymgeisydd i roi'r pennawd ar yr ymyl chwith ond ni lwyddodd pob ymgeisydd i gychwyn paragraff newydd yn ôl yr arwydd cywiro (3.3). Ni lwyddodd pob ymgeisydd chwaith i gau'r testun lle nodwyd hynny gan farc cywiro (1.2). Llwyddodd pawb i rifo'r tudalennau yn ôl y cyfarwyddyd. Ni lwyddodd pawb i newid un gair am un arall trwy gydol y ddogfen (2.3). Cosbwyd hefyd am wallau teipio yn y ddogfen hon.

Dogfen 2

Cwblhawyd y ddogfen hon yn foddhaol. Llwyddodd pob ymgeisydd i ganoli'r pennawd ac i ad-drefnu'r rhestr yn nhrefn y wyddor. Fodd bynnag, ni lwyddodd pawb i argraffu copi ar bapur A4 tirlun (4H). Ni fu pawb yn llwyddiannus wrth fewnosod y llun a newid ei faint yn ôl y gofyn (2.3). Ni lwyddodd pawb chwaith i osod y testun i'r dde o'r llun (2.3). Newidiwyd maint y ffont yn gywir gan amlaf a thanlinellwyd yn gywir bron bob tro. Cosbwyd gwallau teipio hefyd yn y ddogfen hon. Ni lwyddodd sawl ymgeisydd i gyfri'r geiriau yn gywir.

Dogfen 3

Fe wnaeth pob ymgeisydd newid y drefn yn y tabl yn ôl y gofyn. Defnyddiodd pawb y ffont gywir ond ni wnaeth pob ymgeisydd adael y gofod fertigol gywir bob tro (4E). Fe gosbwyd ambell ymgeisydd am beidio â theipio penawdau'r colofnau yn union fel ag yr oeddent yn ymddangos yn y papur arholiad (2.3). Methodd ambell ymgeisydd gyfuno'r celloedd hefyd fel bod penawdau'r adrannau yn ymestyn dros ddwy golofn (2.3). Methodd ambell ymgeisydd â diffodd y llinellau o gwmpas y tabl (2.3). Ni lwyddodd pob ymgeisydd i roi'r pris uchaf yn gyntaf (3.4) ac ni lwyddodd sawl ymgeisydd i alinio'r pwyntiau degol (4Q).

Dogfen 4

Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio a methodd sawl ymgeisydd rifo ail dudalen y ddogfen (2.3). Methodd ambell ymgeisydd gynnwys y dyddiad (2.1) a newidiodd un neu ddau y pennawd llythyr (4H). Rhoddwyd priflythyren ddechreuol i'r pwyntiau bwled pan na wnaed hynny ar y papur arholiad. Cosbwyd 1 gwall (4J) am hyn. Methwyd ag arddangos y pwyntiau bwled yn gyson (roedd un set ar yr ymyl chwith a'r set arall wedi eu mewnleoli). Eto cosbwyd 1 gwall (2.3) am hyn. Methodd ambell ymgeisydd â chaniatáu llinell wag cyn cychwyn y pwyntiau bwled – fe'u cosbwyd 1 gwall (4B). Llwyddodd bron pawb i gynnwys y copïau ychwanegol ac i ddynodi pwy oedd i'w derbyn.

Nearly all candidates managed to complete the examination paper. The standard was satisfactory but there wasn't always evidence of candidates having proofread their work carefully. Keying-in errors were penalised mainly but presentation errors and failure to follow instructions at all times were also penalised.

Document 1

This document was completed satisfactorily on the whole. All candidates managed to change the left margin correctly but the top margin was not always correct on pages 2 and/or 3 (4T). Not all candidates used full justification (4S). All candidates managed to move the text according to the instructions but some candidates failed to copy the sentence correctly – there were many instances of candidates copying the paragraph instead of the sentence (3.5). Also, some candidates did not leave a clear line space before the sentence that was copied (4B). The majority of candidates inset the paragraph successfully (if not, they were penalised 1 error under 4U) and changed to single line spacing when required (1 error under 4C if spacing was not changed). All candidates managed to place the header at the left margin but not all candidates followed the correction sign for starting a new paragraph (3.3). Some candidates did not follow the close-up sign either (1.2). All candidates managed to number the pages according to the instruction. Not all candidates managed to complete the search and replace successfully (2.3). Keying in errors were also penalised in this document.

Document 2

This document was completed successfully. All candidates managed to centre the heading and to sort the list into alphabetical order. However, not all candidates managed to print a copy on A4 landscape (4H). Not all candidates managed to insert the picture and re-size it according to the instructions (2.3). Not all candidates managed to place the text to the right of the picture either (2.3). The font size was changed correctly by most candidates and the underlining was completed successfully nearly every time. Keying in errors were also penalised in this document. Some candidates did not manage to complete the word count correctly.

Document 3

All candidates managed to modify the layout of the table according to the instructions given. All candidates used the correct font but not all candidates managed to leave the correct vertical space (4E). Some candidates were penalised for not typing the column headings exactly as they appeared on the exam paper (2.3). Some candidates also failed to merge cells so that the headings for the sections extended over more than one column (2.3). Some candidates did not switch off the gridlines around the table (2.3). The sort was not completed successfully by some candidates (3.4) and many did not align the decimal points (4Q).

Document 4

This document was completed well. Penalties were mostly awarded for keying in errors and many candidates did not number the second page of the document (2.3). Some candidates failed to include the date (2.1) and one or two candidates changed the letter template (4H). Some candidates included an initial capital when keying in the bullet points when this did not appear on the exam paper. This incurred 1 error (4J). Some candidates failed to display the bullet points consistently (one set was placed at the left margin whilst the next set was indented). Again this incurred 1 error (2.3). A number of candidates did not allow a clear line space before the bullet points – they were penalised 1 error (4B). Nearly all candidates included the extra copies and noted the routing.